
GWAITH DUR PORT TALBOT
CENEDLAITHOL
NID
DINISTR
YMGYRCHU NAWR!
GAN GYNHYRCHWYR AMGUEDDFA CYMRU
TRAIS
MAE BYWYDAU DU O BWYS

# Beth yw pwrpas y zine yma?

**Croeso i Zine Ymgyrchu NAWR! Gan gynhyrchwyr Bloedd Amgueddfa Cymru Alex Matthews, Beli Evans a Ned Jones.**

Fel rhan o'n gwaith ar arddangosfa STREIC! 84-85 STRIKE!, daethom ynghyd er mwyn ystyried gwaddol streicio a gweithredu gwleidyddol yng Nghymru. Rydyn ni'n credu ei bod hi'n bwysig gallu arddangos, nid yn unig y gwaith sy'n digwydd mewn cymunedau ledled Cymru (pethau y byddwch yn ymwybodol ohonyn nhw a phethau na fyddwch chi'n gwybod amdanyn nhw), ond hefyd pa broblemau ac anawsterau sy'n dal i wynebu cymunedau heddiw.

Mae gan gymunedau Cymru hanes hir a phrydferth o ddod at ei gilydd i adeiladu bywyd gwell i'w gilydd, a gobeithiwn y gall y zine hwn gynnig darlun o hynny.

Mae Ymgyrchu NAWR! ar y naill law yn gyflwyniad i'r math o ymgyrchu sy'n digwydd, nawr, yng Nghymru, ac yn alwad agored i gymryd rhan, i weithredu, i fod yn rhan o rywbeth mwy na chi eich hun.



# Pwy ydy Bloedd?

Cydweithfa yn Amgueddfa Cymru ydy Bloedd sy'n cynnwys pobl ifanc rhwng 16 - 25 oed sy'n byw yng Nghymru.

Mae hwn yn ofod i bobl ifanc gydweithio gyda'r Amgueddfa drwy gyfleoedd cyfranogol a chyflogedig.

Rydyn ni'n edrych ar dreftadaeth, celf, y gwyddorau naturiol, hanes cymdeithasol, diwylliant a hunaniaeth drwy arddangosfeydd, digwyddiadau, gweithdai, cyhoeddiadau a mwy!

I ddysgu mwy neu i gymryd rhan, e-bostiwch ni bloedd.ac@amgueddfacymru.ac.uk
Gallwch hefyd ein dilyn ni ar Instagram!
@bloedd_ac

# UNDEBAU LLAFUR HEDDIW

Byth ers methiant streic y glowyr 1984, ymddengys mai ond gwaethygu a wnaeth sefyllfa mudiad llafur a phobl dosbarth gweithiol Prydain. Dinistriwyd diwydiant cynhyrchu oedd â dylanwad undebol mawr, pasiwyd deddf undebau llafur 2016 yn ogystal â chyfreithiau eraill sy’n rhwystro undebau, cafodd llwythi o dai cyngor eu gwerthu, a dioddefodd gwasanaethau cyhoeddus doriadau enbyd, gyda rhai yn cael eu preifateiddio’n llwyr. Parhau y mae dirywiad diwydiant yng Nghymru, gyda chynlluniau i gau gweithfeydd Dur Tata Port Talbot fydd yn arwain at o leiaf 1,929 o bobl yn colli eu swyddi. Fel gweithwyr dur Port Talbot, rhagwelodd y glowyr oedd yn streicio y byddai cau’r pyllau’n cael effaith negyddol ar eu cymunedau. Yn y ddegawd wedi i streic y glowyr ddod i ben ym 1985, gwelwyd rhagor a rhagor o byllau’n cau yng Nghymru, o flwyddyn i flwyddyn. Erbyn 1996, collwyd 25,000 o swyddi mewn cymunedau glofaol ledled Cymru.


UK STEEL
JOBS NOT
FOR SALE


HONK
IF YOU
SUPPORT
FAIR PAY
FOR
NURSING
FAIR PAY FOR NURSING
It's time to pay nursing staff fairly
Staff shortages cost lives
THE VOICE OF NURSING
Will there be enough staff when you need care?
Today's shortages cost lives

Roedd yn rhaid i'r gyrfaoedd hyn mewn glo a chynhyrchu oedd ag aelodaeth gref o ran undebau llafur wneud lle ar gyfer swyddi â thâl isel, cytundebau dim oriau a gwaith ansefydlog. Mae aelodaeth undeb wedi gostwng o dros 13 miliwn yn y 1970au hwyr i dim ond 6.25 miliwn yn 2022.

Mae anghyfartaledd yn parhau i gynyddu, gydag 1% mwyaf cyfoethog Prydain yn meddu ar fwy o gyfoeth na 70% o'r boblogaeth. Mae'r pedwar Prydeiniwr mwyaf cyfoethog bellach yn meddu ar gyfoeth cyfansymiol o £42.2 biliwn tra bod gan 20 miliwn o Brydeinwyr £38 biliwn yn unig. (Ystadegau Oxfam).

Fodd bynnag, gwelwn fod gweithwyr yn dechrau ymladd yn ôl gyda sawl proffesiwn, gan gynnwys athrawon, nyrsys, gweithwyr rheilffyrdd, casglwyr sbwriel, milfeddygon, meddygon iau a gweithwyr Royal Mail ac Amazon yn cychwyn ton newydd o streiciau yn 2022,. Mae'r mudiad llafur yng Nghymru, Prydain a thu hwnt yn dychwelyd ac mae dyletswydd arnom ni i barhau â'r etifeddiaeth o wrthsafiad dosbarth gweithiol a welwyd yn ystod streic y glowyr 1984/85.


NUJ
NATIONAL UNION OF JOURNALISTS
UNDEB Y NEWYDDIADURWYR CYMRU
www.nuj.org.uk
FAIR PAY NOW
CYFLOG TEG NAWR
CYFLOG TEG NAWR
CYFLOG TEG NAWR


FAIR FEES FAIR PAY SMALLER PROFITS
Cymru Wales
nationalshop stewardsnetwork
FAIR PAY
PETS BEFORE PROFITS
FAIR FEES FAIR PAY SMALLER PROFITS

# Trefnu Cwiar Heddiw

Mae ymgyrchu cwiar wedi bod yn ffynnu dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae hyn wedi bod yn gadarnhaol mewn sawl ffordd, gan gynnwys wrth gynnig cefnogaeth ymarferol ar gyfer pobl draws a chwiar ledled Cymru, cynnig mynediad at gymuned cwiar, a chynnig rhagor o gyfleoedd i fynegi ein hunain yn sgil gwell gweladwyedd.

Ond mae'n rhaid i ni gydnabod fod cynnydd o ran ymgyrchu fel arfer yn digwydd yn sgil cynnydd mewn gormes. Mae cynnydd trawsffobia ar draws y DU dros y blynyddoedd diwethaf wedi gwneud bywyd yn arbennig o anodd i fenywod traws anabl, dosbarth gweithiol ac wedi'u hileiddio. Pan fyddwn yn dathlu gwaith artistiaid cwiar, mae'n rhaid i ni hefyd gofio pam fod angen y gwaith hwn, ac y gallwn oll weithio gyda'n gilydd i greu dyfodol lle nad oes angen ymgyrchu o'r fath.

Dros y degawd diwethaf cafodd nifer o grwpiau sy'n ymladd dros newid gwleidyddol a chymunedol i bobl cwiar yng Nghymru eu sefydlu. Yn 2016, sefydlwyd Glitter Cymru er mwyn i bobl LHDTC+ o gefndir Mwyafrif Byd-Eang. Mae Glitter Cymru yn parhau hyd heddiw, ac mae wedi dylanwadu ar newidiadau polisi o fewn Llywodraeth Cymru, wedi rhoi cefnogaeth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches LHDTC+ mewn argyfwng, ac wedi creu gofod i artistiaid Mwyafrif Byd-Eang cwiar i allu ffynnu. Mae Glitter Cymru yn dal i gwrdd yn rheolaidd yng Nghaerdydd ac yn weithredol iawn wrth ymgyrchu.

Yn 2020, gyda COVID yn ynysu pobl cwiar fwyfwy ac yn achosi caledi ariannol, ac wrth i lywodraeth y DU fynd yn ôl ar ei haddewid o ddiwygio Deddf Cydnabod Rhywedd, crëwyd Trans Aid Cymru (Rhwydwaith Cydgefnogaeth Traws ac Anneuaidd De Cymru gynt). Caiff y rhwydwaith cydgefnogaeth hwn ei redeg gan, ac ar gyfer, pobl draws er mwyn darparu cymorth ariannol, prydau bwyd am ddim, cyfeiriadau at gyngor, a chymuned.




Brodwaith o stitching4change





TRANS AID CYMRU

Arwydd o brotest hawliau traws a drefnwyd gan Trans Aid Cymru i brotestio oedi cyn diwygio'r Deddf Cydnabod Rhywedd ym mis Mehefin 2020.

GLITTER CYMRU

LGSM LESBIANS GAYMEN SUPPORT THE MINERS 1984 1985




Brodwaith o stitching4change

Mae Trans Aid Cymru hefyd wedi trefnu protestiadau'n ymwneud â pholisi llywodraethol trawsffobig a chwiarffobig ac ar gyfer materion sy'n gorgyffwrdd, megis toriadau anabledd (mae nifer o bobl draws a chwiar hefyd yn anabl).

Yn 2024, ffurfiwyd Cymru Cwiar dros Balesteina, fel rhan o'r mudiad byd-eang ehangach Queers for Palestine. Mae'r grŵp yn eirioli dros ryddid i Balesteina ynghyd â phroblemau cysylltiedig yn ymwneud â gwrth-hiliaeth yn lleol a brwydrau dros ryddid. Maen nhw'n rhan o linach hir o grwpiau LHDTC+ sydd wedi bod yn cydsefyll gyda brwydrau eraill sydd yn effeithio arnynt yn uniongyrchol, ac yn anuniongyrchol, megis gyda LGSM.

Yn ne Cymru a thu hwnt, mae nifer o grwpiau bellach wedi'u sefydlu i ymroi i wella bywydau pobl LHDTC+ mewn ffyrdd bach a mawr. Mae projectau ar y tir, megis Teasel a Malwen, sy'n cefnogi pobl cwiar i gysylltu gyda'r tir a natur. Ceir hefyd cymunedau o artistiaid, megis Cymuned Ballroom Cymru sy'n dathlu'r sîn Ballroom yng Nghymru, Y Teulu Teg sy'n dod ag artistiaid cwiar o gefndir mwyafrif byd-eang ynghyd yng Nghaerdydd, a Chydweithfa On Your Face sy'n creu projectau artistig sy'n adrodd straeon cwiar.

Ceir grwpiau sydd hefyd yn darparu cefnogaeth ymarferol yn ymwneud â gwahanol elfennau o fywyd pobl cwiar, megis Clinig LHDTC+ y Gyfraith sy'n darparu cyngor cyfreithiol rhad ac am ddim i bobl cwiar, Hoops and Loops, grŵp cefnogaeth i geiswyr lloches a ffoaduriaid LHDTC+, y TIN Wardrobe sy'n rhoi dillad sy'n rhoi cadarnhad rhywedd am ddim i bobl traws, rhyngryw, ac anneuaidd, a chymaint mwy.

Os ydych chi'n ymwybodol o brojectau eraill neu'n rhan o un, rhannwch eu henwau ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio'r hashnod #ZineYmgyrchuNawr er mwyn i ni ddod o hyd iddyn nhw a dysgu rhagor amdanoch chi!




# LGBTQ: Inside Wales' first Ballroom community

17 June 2023



There are many categories in Ballroom, including Old Way, New Way and Vogue Femme


THE TOWN OF TREHARRIS
FAREWELL DEEP NAVIGATION
1873 — 1991
TIEN TIEN
LOTUS
SPAR

# Yn Fyw yn y Cymoedd

Ym Merthyr, fel ym mhob rhan o'r Cymoedd neu rannau difreintiedig eraill o'r maes glo, cawn ein gweld fel pobl apathetig, sydd wedi'u dadrithio efallai, yn ynysig, wedi cael ein gadael ar ôl.

Wrth edrych o amgylch yr arddangosfa hon, tybed a allwch chi gymodloni'r hen straeon arwrol o radicaliaeth ac ymgyrchu gyda'n bywydau fel ysbrydion a sombis democratiaeth heddiw? Y Merthyr a bleidleisiodd dros Brexit, y Merthyr lle mae diffyg pleidleisio, y Merthyr segur.

Maen nhw'n dweud fod y Cymoedd yn farw, rhes o drefi anghyfannedd wedi'u plannu mewn bryniau a oedd unwaith yn fynyddoedd. Does neb yn mynd i'r strydoedd bellach. Does gan neb unrhyw beth i'w ddweud. Ar un adeg byddem yn cwrdd mewn chwareli ac ar y tipiau ond maen nhw'n blanhigfeydd conifferau ac yn fusnesau preifat i dwristiaid bellach. Mae'r 'stiwts, y neuaddau cyhoeddus a chlybiau'r gweithwyr yn feysydd parcio ac yn lleiniau o glymog a choed corn carw. Nid ni bia'r Cymoedd. Rydyn ni'n byw ar y trothwy rhwng y diwydiannol a'r ôl-ddiwydiannol, y gorffennol a'r presennol, y byw a'r marw, rhwng y go iawn a'r dychmygol. Rydyn ni'n byw yn sownd mewn colled, gyda "cyn" yn rhagddodi popeth.

Dwi'n casáu hyn. Roeddwn i eisiau bod yn rhan o'r arddangosfa hon a sôn wrthoch chi am bethau cadarnhaol. Llefydd ar gyfer ffeithiau yw Amgueddfeydd, yn enwedig rhai cenedlaethol sydd â mandad gan y Llywodraeth. Gwisgwch fi lan mewn gwisg AC, yn arbenigwr sy'n meddu ar ddoethuriaethau a thraethodau ymchwil.

Wnewch chi wrando arna i wedyn? Roeddwn i'n awyddus i fy ngeiriau ymddangos ar blinth er mwyn i chi wybod fod yr hyn sydd gen i i'w ddweud yn bwysig. Ond mae arddangosfeydd cenedlaethol yn wrthrychol. Dydyn nhw ddim yn siarad ar ran unigolyn. Mae llaw oer gwrthrychedd yn cynnal post-mortem ar gorff eiliad o fy niwylliant i. Dadelfennu a thrafod ein bywydau a'n dyfodol.

Ai beddrodau yw Amgueddfeydd? Anifeiliaid wedi'u stwffio a chreiriau o ddiwylliannau a goncrwyd ac a gollwyd. Offer a theganau na chânt fyth eu defnyddio, a osodir mewn eirch gwydr. Ydych chi wedi dod i'n hangladd?

Mae'r hynafiaid yn dweud wrthyf eu bod wedi bod yn galaru am 30 mlynedd, wedi gwylio'r gymuned yn cael ei ffrwydro, ei thoddi'n ddim neu'n cael ei gadael. Maen nhw'n dweud ei fod yn llenwi'r dociau dan y Senedd, tyfiant drosto, milltiroedd i ffwrdd, drosodd ac o dan gynnydd sment.

Mi wnes i grio ar ddamwain yn un o'r cyfweliadau hanes llafar, fy isymwybod yn llamu tu hwnt i broffesiynoldeb gwrthrychol. Efallai fod fy niwylliant yn farw, ai dyna pam fod pobl yn parhau i'w alw'n dreftadaeth? Efallai fy mod yn galaru a byth wedi symud y tu hwnt i'r gwadu.

Dwi wedi treulio blynyddoedd yn casglu, dogfennu, trefnu a chyflwyno bywyd y bûm i'n byw, dwi yn byw. Prawf o'r tipiau gwastraff mae plant yn chwarae arnynt yn ddiarwybod, y bues i'n chwarae arnyn nhw. Trawsgrifiadau o sosialaeth radical a bregethwyd gan bampas a mam-gus mewn stafelloedd ffrynt, a lluniau o gyd-gyfarfod undeb, gorymdeithiau a chlybiau, ac ethnograffeg o gyfreithiau teuluol nas llefarwyd, a phererindodau i Borthcawl, Blackpool a'r Barri.



one hundred years
OF
TREHARRIS BOYS & GIRLS CLU
W MORRIS
JAURES
GLASIER
MARX
MERTH
TRELEWIS
DRIF


THE BEST OF LUCK
LAST
WE'LL MEET AGAIN
DON'T KNOW WHEN
SOME SUNNY

Ac mae fy nheulu yn gweithio mewn ffatrïoedd ac yn gwneud gwaith corfforol ac yn meddu ar sgiliau a chrefft sydd heb ei golli.Dwi ddim yn gweld fod unrhyw beth wedi newid. Tu allan i fy 'stafell wely ceir pwll glo hefyd, y mwyaf yn y DU. Dwi dal i weld tryciau a thryciau o lo, trenau o lo, glo. Dwi'n ei weld gyda'r ddwy lygad sydd gen i, mynydd 400 metr o lo. Roedd i fod i ddod i ben cyn i mi gael fy ngeni. Ond dwi'n ei weld e. Grwnian sy'n achosi paranoia a chanu yn y glust. Mae degau o lygaid golau yn syllu nôl ataf i bob nos, yn bwyta'r mynydd. Dwi'n siarad yn uwch o gornel y zine hwn.

# Nid ydym yn farw.

Wnes i erioed sôn wrthot ti am yr hyn y mae streic 84/85 yn ei olygu i mi? Doeddwn i ddim yn fyw bryd hynny hyd yn oed, ond mae wedi fy ffurfio tu hwnt i'r hyn y gallaf ei ddirnad. Dychmygais fy hun yn wahanol i'r hyn yr oedd cymdeithas a systemau wedi'i bennu ar fy nghyfer oherwydd yr hyn y gwnaethon nhw bryd hynny, yn 84/85, '72, '26, 1831. Yr hyn a adeiladwyd ganddynt yn erbyn cwmni, heddlu, hegemoni a llywodraeth. Mae fy etifeddiaeth yn gyfoethog er nad oes gennyf ddim o werth. Gosodon nhw lwybr gwahanol ar fy nghyfer, un gyfrinachol y des i o hyd iddi rywsut yn fy isymwybod. Rhoddais y map hwnnw a gladdon nhw yn fy enaid i mewn i waliau Clwb Bechgyn a Merched Treharris fel y gall pobl fel fi ei weld dros eu hunain. Roeddwn i'n arfer dweud fy mod yn creu amgueddfa yno, ond mae'r arddangosfa hon wedi gwneud imi sylweddoli nad dyna beth ydyw. Mae mwyafrif y glowyr a dyfais i lan yn eu plith wedi marw, ond ynof i, mae eu syniadau'n parhau. Dwi'n creu lle i'n diwylliant ni barhau, nid lle dros dro i ddenu twristiaid neu i ddod i'w weld ar drip ysgol. Na, dwi'n creu lle ar gyfer fy nghymuned, 'stiwt neu sgwâr.







Cipolwg ar ofod yr arddangosfa a'r murlun sy'n dathlu treftadaeth dosbarth gweithiol lleol yn Nhreharris. Mae'n agor am 2pm 29 Hydref 2024 yng Nghlwb Bechgyn a Merched Treharris. Mae croeso i bawb!







